Datganiad Newyddion

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

10 Mai 2010

Addysgu arloesol yn dod â brwdfrydedd a chymhelliant i'r ystafell ddosbarth

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, dywed arolygwyr Estyn bod gan ddisgyblion 11-14 oed sy'n mynychu ysgolion arloesol fwy o gymhelliant a bod eu hathrawon yn fwy brwdfrydig. Mae adroddiad Estyn, *Arloesedd yng nghyfnod allweddol 3*, yn archwilio effaith newidiadau Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 a roddodd fwy o reolaeth i ysgolion dros yr hyn maent yn ei addysgu.

Wrth gynnal eu hymchwil, ymwelodd arolygwyr Estyn â 24 o ysgolion uwchradd a dwy ysgol arbennig a nodwyd gan awdurdodau lleol yn ysgolion sy'n dangos arfer orau arloesol yng nghyfnod allweddol 3. Bu'r arolygwyr yn cyfweld ag athrawon ac arweinwyr, yn arsylwi gwersi ac yn siarad â disgyblion. Cymerwyd tystiolaeth hefyd o 14 o awdurdodau lleol, dau wasanaeth ymgynghori ac un brifysgol sy'n darparu cymorth i'r ysgolion hyn.

Dywedodd Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "*Mae tystiolaeth yn dangos bod cyflwyno'r cwricwlwm a'r arferion addysgu arloesol cywir yng nghyfnod allweddol 3 yn aml yn cael effaith gadarnhaol ar fwynhad disgyblion o'u gwaith. Y rheswm pennaf dros lwyddiant yr arloesedd yn yr ysgolion yr ymwelodd arolygwyr â nhw yw arweinyddiaeth gref athrawon ac uwch aelodau staff sydd wedi datblygu a gweithredu dulliau addysgu a dysgu newydd.*"

"*Fodd bynnag, nid yw'r ysgolion hyn yn gynrychioliadol o holl ysgolion Cymru. Mae angen rhannu arfer dda ar draws pob ysgol yng Nghymru ac mae angen i awdurdodau lleol gynorthwyo a herio ysgolion nad ydynt yn mabwysiadu dulliau arloesol o ddatblygu'r cwricwlwm.*"

Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yn y sampl wedi addasu'u cwricwlwm Blwyddyn 7 drwy grwpio pynciau ynghyd, fel Saesneg a'r dyniaethau, fel bod disgyblion yn datblygu medrau drwy themâu. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu a yw cyfuno pynciau wedi cael effaith ar safonau cyffredinol, mae medrau cyffredinol disgyblion wedi gwella.

Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd wedi newid hyd gwersi na'r diwrnod ysgol mewn modd radical, ond mae llawer ohonynt yn atal yr amserlen am ddiwrnod er mwyn canolbwyntio ar fedrau fel gweithio gydag eraill a datrys problemau, a hynny trwy weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol yn aml. Mae nifer y diwrnodau a ddefnyddir yn amrywio mewn ysgolion, o un y flwyddyn yn unig, i un bob hanner tymor. Dywed yr adroddiad bod disgyblion yn mwynhau'r diwrnodau hyn ac yn teimlo eu bod yn ddefnyddiol iddynt o ran cymhwyso'u gwybodaeth am fedrau dysgu a meddwl. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sydd â gweithdrefnau arfarnu trylwyr i asesu effaith cynllunio ac addysgu arloesol ar ddeilliannau disgyblion.

Canfu arolygwyr hefyd fod ymgymryd â phrosiectau ymchwil weithredu wedi helpu athrawon i ddatblygu dulliau addysgu a dysgu newydd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â rhaglen Llywodraeth Cynulliad *Cymru, Datblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu*.

Fodd bynnag, mae effaith y cwricwlwm diwygiedig wedi bod yn llai nag y gallai fod oherwydd y flaenoriaeth y mae ysgolion uwchradd wedi'i rhoi i ddatblygiadau yn yr ystod oed 14-19, yn hytrach nag i ddatblygu arloesedd.

Mae adroddiad Estyn yn amlinellu nifer o argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r cwricwlwm ac addysgu yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu arfer orau'n rheolaidd rhwng ysgolion; gofyn i ddysgwyr sut maent am ddysgu a beth; cynorthwyo a herio ysgolion nad ydynt yn effeithiol nac yn arloesol yn eu dull o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, ac yn olaf, ystyried cyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn annog mwy o arloesedd.

-DIWEDD-

I drefnu cyfweliad gydag awdur yr adroddiad, Jackie Gapper, neu Steffan James (Cymraeg) cysylltwch â:

Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gov.uk
02920 446454

Nodiadau i Olygyddion:

Ynglŷn â'r adroddiad

- Cafodd adroddiad Estyn 'Arloesedd yng nghyfnod allweddol 3' ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports.asp

- Edrychodd tîm o chwe arolygydd ar dystiolaeth o ymweliadau â 24 o ysgolion uwchradd a dwy ysgol arbennig a nodwyd gan awdurdodau lleol neu mewn adroddiadau arolygu diweddar yn ysgolion ag arfer arloesol yng nghyfnod allweddol 3. Hefyd, cymerodd 14 o awdurdodau lleol, dau wasanaeth ymgynghori ac un brifysgol ran mewn holiadur ynglŷn â'u cymorth i'r ysgolion hyn.

- Mae'r adroddiad yn adeiladu ar 14 o gyhoeddiadau eraill gan Estyn sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2 yr adroddiad.

- Astudiaethau achos:

Abertawe
Ysgol Gyfun Gellifedw
Ysgol Gyfun Pentrehafod
Ysgol Gatholig Rufeinig
yr Esgob Vaughan

Sir Benfro
Ysgol Tasker Milward
a Reolir yn Wirfoddol

Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun y Barri
Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Blaenau Gwent
Ysgol Gyfun Glynebwy

Caerdydd
Ysgol Uwchradd Corpus Christi
Coleg Cymunedol Llanfihangel

Caerffili
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Castell-nedd Port Talbot

Ysgol Ystalyfera,
Ysgol Gyfun Cwrt Sart

Casnewydd
Ysgol Uwchradd Casnewydd

Conwy
Ysgol Aberconwy

Ceredigion
Ysgol Dyffryn Teifi

Sir Gaerfyrddin
Ysgol Gyfun Tregib

Gwynedd
Ysgol Eifionydd

Sir y Fflint
Ysgol Uwchradd Cei Connah

Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gyfun Maesteg

Powys
Ysgol Uwchradd Aberhonddu

Rhondda Cynon Taf
Ysgol Uwchradd Pontypridd
Ysgol Gyfun Treorci
Ysgol Tŷ Coch

Wrecsam
Ysgol Gyfun Morgan Llwyd
Ysgol Sant Christopher

Ynys Môn
Ysgol David Hughes Porthaethwy

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy gynnig gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru drwy arbenigedd ein staff.

Rydym yn annibynnol ar, ond cawn ein hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk